Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 01.04.2021

## Cyngor Gwynedd yn diolch i fusnesau'r sir

Mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau datganiad yn diolch i fusnesau'r sir am eu hymdrechion i gefnogi a diogelu ein cymunedau yn ystod y cyfnod anodd yma. I'r perwyl hyn mae nodyn o ddiolch wedi ei anfon i dros 9,000 o fentrau lleol a'i gylchredeg drwy law bwletinau a cyfryngau cymdeithasol tîm cefnogi busnes y Cyngor. I weld y datganiad yn llawn, ewch i:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd01Ebr2021

## Annog pwyll wrth ailagor economi Gwynedd yn ddiogel

Mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau datganiad yn dilyn llacio y rheoliadau teithio diweddar yn annog unrhyw ymwelwyr i fod yn bwyllog, trefnu o flaen llaw a thrin ein cymunedau gyda pharch. Ar hyn o bryd, gall pobl o rhannau eraill o Gymru ymweld â Gwynedd, ond wrth gwrs nid oes modd teithio i mewn nac allan o Gymru tan o leiaf 12 Ebrill 2021. Mae Cyngor Gwynedd a'i

bartneriaid wedi bod yn cydweithio yn agos dros y misoedd diwethaf i baratoi ar gyfer sefyllfa o'r fath. Nod y paratoadau hyn ydi gwneud popeth posib i gadw pobl Gwynedd a'r rhai sy'n dewis ymweld â'r sir yn ddiogel. Mae gwybodaeth manwl am y paratoadau ar gael yn y datganiad llawn, ewch i:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd31Maw2021

# Symud Cymru i Lefel Rhybudd 3: Y Prif Weinidog yn nodi'r cynlluniau ar gyfer llacio cyfyngiadau COVID ymhellach

Ddoe, 31 Mawrth 2021, mi wnaeth Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, nodi cyfres o fesurau a fydd yn symud Cymru i Lefel Rhybudd 3 yn llawn erbyn 17 Mai 2021, os bydd yr amodau o ran iechyd y cyhoedd yn parhau'n ffafriol. Ar gyfer y datganiad llawn, ewch i:

https://bit.ly/3udbNgZ

Y pwyntiau allweddol i fusnesau yw:

- 12 Ebrill 2021:
  Holl wasanaethau manwerthu a chysylltiad agos nad ydynt yn hanfodol yn cael ailagor
  Caniatáu i bobl deithio i mewn ac allan o Gymru o weddill y Deyrnas Unedig a'r Ardal Deithio Gyffredin

- O 26 Ebrill 2021 (i'w gadarnhau yn yr adolygiad ar 22 Ebrill 2021, gan ddibynnu ar yr amodau o ran iechyd y cyhoedd ac ar gael cadarnhad terfynol gan y Gweinidogion)
  Ailagor atyniadau awyr agored
  Ailagor lletygarwch awyr agored, gan gynnwys mewn caffis, tafarndai a bwytai

- Dechrau Mai 2021
  Cynlluniau i weithgareddau awyr agored a drefnwyd ymlaen llawer ar gyfer hyd at 30 o bobl gael eu cynnal gan gynnwys derbyniadau priodasau
  Cynlluniau i ailagor campfeydd, canolfannau hamdden a chyfleusterau

> ffitrwydd ar gyfer hyfforddiant unigol neu un-i-un ond nid dosbarthiadau ymarfer corff

## Cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Bydd miliynau o weithwyr ym mhob rhan o'r DU yn derbyn codiad cyflog o heddiw ymlaen, 1 Ebrill 2021, wrth i'r cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ddod i rym. Ewch i:

https://bit.ly/3fy8TPY

## Digwyddiadau Gogledd Creadigol 21 Ebrill 2021

Mae Gogledd Creadigol yn cynnal dau ddigwyddiad ar Zoom brynhawn Dydd Mercher 21 Ebrill 2021:

- Pweru'r Diwydiant Gemau Fideo 2:00pm – 3:30pm

Diwydiant gemau fideo'r DU yw'r mwyaf yn Ewrop ac mae yna gyfoeth o dalent a sgiliau ledled Cymru ac yn y rhanbarth hwn. Ymunwch â'r digwyddiad hwn i ddysgu mwy am ddyfodol Gemau Fideo yma yng Nghymru. Bydd y digwyddiad yn cynnwys sgyrsiau gan ddiwydiant, modelau busnes, llwybr gyrfa pobl ifanc yn y sector, anghenion sgiliau, a sgyrsiau gan gwmnïau'r rhanbarth. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3dqrrP7

- Trwydded Hawlfraint a TGCh 3:30pm – 4:00pm

Cyflwyniad ar y cyd gan y peiriannydd systemau, Carwyn Edwards, o Rwydwaith Tech Gogledd Cymru ac eiddo deallusol a thechnoleg, Jane Lambert. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3dr1fnA

## Arolwg Cymunedol Storiel, Bangor

Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau Cyngor Gwynedd yn cynnal adolygiad busnes o Storiel er mwyn cefnogi ei ddatblygiad a’i gynaliadwyedd yn y dyfodol. Fel rhan o’r adolygiad, mae’r rhai sydd wedi ac nad ydynt wedi ymweld â Storiel, yn cael eu gwahodd i gwblhau holiadur. I gymryd rhan, ewch i:

https://arolwg.gwynedd.llyw.cymru/index.php/886762

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru